

Brwydr ryngwladol yw brwydr yr iaith

ELIN HAF GRUFFYDD JONES

PROFIAD RHYNGWLADOL, YN bennaf, yw Cymdeithas yr Iaith Gymraeg i mi, ac un sy'n rhan o symudiad ehangach o ymgyrchoedd gan bobl ledled y byd i greu parhad a dyfodol i'w hieithoedd, eu cymunedau a'u cenhedloedd.

Ar hyd y blynyddoedd, mae cyd-destunau ieithyddol lleiafrifedig eraill wedi cynnig ffynhonnell barhaus o werthfawr wrth gyrraedd gwell dadansoddiad o sefyllfa Cymru a'r Gymraeg, o weld ein byd o bersbectif gwahanol ac o gyrchu syniadau newydd ar gyfer ceisio newid y drefn. Wedi'r cyfan, mae 'brwydr yr iaith' yn un gyffredin iawn yn rhyngwladol, er ei bod hi'n gallu ymddangos fel un ymylol yn ein gwladwriaeth ni, ac mae dwyieithrwydd ac amlieithrwydd yn brofiadau cwbl gyfarwydd i dros hanner poblogaeth y blaned.

O edrych drwy'r lens ryngwladol, gwelwn fod syniadaeth, ymgyrchoedd a pholisïau o wledydd eraill wedi ymdreiddio i'r ffordd rydym ni'n ystyried y Gymraeg heddiw: ystyriwn sut y daethom i feddwl o'r newydd am y Gymraeg fel 'priod iaith Cymru', neu am gysyniadau cymdeithasegol normaleiddio iaith, neu am sloganau bachog fel 'Dwi eisïau byw yn Gymraeg'. Bwriad yr erthygl hon yw olrhain ychydig ar rôl y Gymdeithas yn y cyfnewid rhyngwladol dros y degawdau diwethaf.

*

Camwn yn ôl i'r 1980au a dechrau'r 1990au ac i ganol y gwrthdaro gwleidyddol yng Nghymru ac yn y wladwriaeth Brydeinig: Thatcheriaeth, Streic y Glowyr, Gwrth-Apartheid, Gwrth-Niwclear a'r Rhyfel Oer, Solidariaeth Nicaragua, Cymal 28, Milwyr Mas, ac roedd ymgyrchoedd a charchariadau aelodau'r Gymdeithas yn fynegiant blaenllaw o'r ffrynt radicalaidd hon. Ar yr un pryd, roedd cynnod Ewropeaidd newydd yn agor ac yn rhan ohono roedd symudiad ieithoedd lleiafrifol yn dechrau bwrw ei wreiddiau o ddifri. Aeth Senedd Ewrop i'r afael â'r maes hwn gydag Adroddiadau Arfé a Kuijpers a dechreuodd y Comisiwn Ewropeaidd weithredu cyllidebau i gefnogi prosiectau gyda'r bwriad o wella hynt a helynt yr ieithoedd lleiafrifol. Ffurfiwyd Biwro Ewropeaidd yr Ieithoedd Llai yn gorff lobïo cynrychioladol gyda phwyllgorau ym mhob aelod-wladwriaeth o'r Gymuned Ewropeaidd ar y pryd, ynghyd ag is-bwyllgorau gan rai cenhedloedd fel Cymru a'r Alban. Sefydlwyd canolfannau Mercator yn rhwydwaith ymchwil arbenigol ar gyfer yr ieithoedd hyn a'u lleoli yng Nghymru, Catalonia, Fryslân a Ffrainc. Dyma hefyd pryd drafftwyd Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol (1992) o dan adain Cyngor Ewrop, ac fe gafwyd cynnod o gydymgyrchu Ewropeaidd tra effeithiol yn ystod y 1990au er mwyn i'r Siarter honno ddod i rym, fel y gwnaeth yn 1998.

Ymunais â Chynllun Mercator yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth o dan arweiniad Ned Thomas yn 1989 wedi i mi raddio mewn Ffrangeg a Sbaeneg. Yng nghwmni cydweithwyr o wahanol gymunedau ieithyddol, ein gwaith oedd ymchwilio i agweddau ar sefyllfaoedd cyfoes yr ieithoedd lleiafrifol – deddfwriaeth, polisi a chynllunio iaith, addysg a'r cyfryngau – a hynny mewn partneriaeth â'r canolfannau Mercator eraill.

Y Gymraeg oedd ein *lingua franca* ym Mercator Aberystwyth, a hynny er mai eithriadau oedd y rhai a oedd wedi eu geni a'u magu yng Nghymru. O blith y Cymry, hyd yn oed, fe'm ganed i yn Bermuda, magwyd Janet Davies ar aelwyd Saesneg yng

Nghymru a threuliodd Ned lawer o'i blentyndod dramor. Bob blwyddyn roedd y tîm yn cynnwys dau neu dri o bobl ifanc o wahanol wledydd – Iwerddon, Llydaw, Gwlad y Basg, Galicia, Catalunya, Astwrias, Fryslân – neu o gymunedau ieithyddol o fewn gwladwriaethau fel Swedeg yn y Ffindir, Ffrisieg y Dwyrain yn yr Almaen, Slofeneg yn yr Eidal ac Albanese ar Ynys Sicilia. Nid pawb oedd yn arddel neu'n hawlio hunaniaeth genedlaethol gonfensiynol chwaith a phrin oedd y rhai a deimlai fod eu pasbort yn cyfleu eu cenedligrwydd, hyd yn oed os oeddent yn fodlon ar eu dinasyddiaeth. Roedd y gweithle Cymraeg hwn yn bair tawdd o gefndiroedd a hunaniaethau ac yn dystiolaeth real fod y Gymraeg yn iaith agored, yn perthyn i bawb, yn sgil i'w dysgu, ac yn system wybodaeth a diwylliannol i'w rhannu.

Yn ystod y cyfnod hwn, deuthum yn Gadeirydd ar Grŵp Cysylltiadau Rhyngwladol y Gymdeithas. Yn ystod y dydd roeddwn yn gweithio ar leiafrifoedd Ewrop gyda'u sefyllfaoedd a'u deinameg wleidyddol yn amrywio'n sylweddol o'r llongwrn o bentrefi Ffrisieg y Dwyrain i ddinasoedd a miliynau'r Catalaneg. Gyda'r nos, roeddem yn dal i drafod y bydoedd hyn a gwahanol ddyheadau'r cymunedau, eu ffiniau a'u tiriogaethau, y tensiynau mewnol ac uchelgais eu siaradwyr, ystyr perchnogaeth a pherthyn, mamiaith ac iaith gyntaf, hunaniaeth a dysgu iaith.

Roeddwn wedi dechrau dysgu Basgeg gyda Begotxu Olaizola a'r diweddar Alan R. King mewn dosbarthiadau nos yn Aberystwyth. Ar un adeg roedd dau ddosbarth ohonom, a nifer o ieithyddion dawnus yn dysgu'r iaith, y Tad John Fitzgerald, y diweddar Barchedig Lyn Lewis Dafis a Dr Richard Crowe yn eu plith. Trwy waith maes gyda CIEMEN, sef Canolfan Mercator yn Barcelona, ac yn ddiweddarach gyda Maite Puigdevall ym Mercator yn Aberystwyth, roeddwn wedi dechrau dysgu Catalaneg. Gydag Elisa Fernández Rei, Xabier Canosa a Rocío Castro – ill tri wedi bod yn gweithio ar wahanol gyfnodau gyda Mercator yn Aberystwyth – es ati i ddysgu Galisieg.

Trwy ddysgu'r ieithoedd hyn, agorwyd bydoedd newydd i mi. O'r 1980au ymlaen, wedi degawdau o orthrwm o dan unbennaeth Franco, roedd gan Wlad y Basg, Catalunya a Galisia ddeddfwriaethau, polisïau ac ymgyrchoedd iaith blaengar o blaid eu priod ieithoedd. Roedd y cyffelybiaethau gyda'r Gymraeg – o ran deinameg ac uchelgais, ac o ran perthyn a hunaniaeth – yn fy ysbrydoli. Aeth y Grŵp Cysylltiadau Rhyngwladol ati i drefnu dirprwyaethau i Wlad y Basg ar gyfer aelodau'r Gymdeithas, ac roedd gennym gymwynaswyr penigamp yn Begotxu ac Alan, yn trosi'n ieithyddol yn ddeheuig rhwng y Gymraeg a'r Fasgeg yn ogystal â rhwng gwleidyddiaeth y ddwy wlad. Cafwyd cyfarfodydd gyda chyrff a mudiadau a chlywed sut roedd gwahanol ymgyrchoedd a chynlluniau'n gweithio. Wrth i ni drafod cysyniadau sylfaenol 'yr iaith' yno, a phersectif y Basgiaid blaengar daethom i ddeall Cymru'n well.

Gyda hynny, ymdreiddiodd y syniadaeth wleidyddol hon am 'yr iaith' i grwpiau ymgyrchu'r Gymdeithas. Gwelir hyn yng nghyhoeddiadau allweddol y cyfnod, megis *Popeth yn Gymraeg*, *Y Gymraeg ym Mhopeth* (1999) a *Deddf Iaith Newydd i'r Ganrif Newydd* (2001), ble rhoddir lle canolog i'r ddadl dros y Gymraeg fel 'priod iaith Cymru'. Does dim dwywaith nad trwy ddylanwad cysyniad y *lengua propia* yn Neddfau Normaleiddio'r Fasgeg (1982), y Gatalaneg (1983) a'r Galisieig (1983) yr ailgyflwynwyd 'priod iaith' i wleidyddiaeth y Gymraeg ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif. Nid pawb a gytunai chwaith. Wrth geisio mynd i'r afael â pholisi iaith blaengar a phriodol ar gyfer yr egin ddeddfwrfa yng Nghaerdydd, cawsai'r Gymdeithas ei beirniadu am ei chulni wrth fynnu sefydliad cwbl ddwyieithog ym Mae Caerdydd a chydabyddiaeth i'r Gymraeg fel priod iaith Cymru ar lefel genedlaethol. Wrth gwrs, rhyngwladoldeb y Gymdeithas – nid y plwyfoldeb honedig – oedd i gyfrif am y galwadau hyn.

Yn yr un modd y cyflwynwyd y cysyniad o 'normaleiddio iaith' wrth drafod y Gymraeg. Unwaith yn rhagor drwy edrych yn benodol at Gatalunya, Gwlad y Basg a Galisia a

chraffu ar y syniadaeth y tu ôl i'r polisïau oedd ar waith ym maes gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg, iaith i oedolion, y cyfryngau ac ati, cydiwyd yn y cysyniad o 'normaleiddio' i gyfleu ailgyflwyno iaith i feysydd ble'i collwyd yn ogystal â'i chyflwyno i feysydd newydd. Trwy hyn fe atgyfnerthwyd y syniad nad oedd unrhyw beth yn anochel am dranc iaith: nid marw'n naturiol a wna ieithoedd, ond cael eu hamddifadu o amodau byw angenrheidiol. O'r cyfandir – ac yn dra gwahanol i'r hyn a oedd yn gyfarwydd i Gymru am Iwerddon a'i Gweriniaeth – fe ddaeth tystiolaeth o lwyddiant i wrthbrofi'r naratif nad oedd modd atal y dirywiad. Roedd yr ystadegau o Wlad y Basg a Chatalunya yn dangos yn glir ei bod hi'n bosib adfywio iaith drwy ddeddfu, cynllunio bwriadus a chlustnodi adnoddau priodol. Eto, yn y cyfnodau hynny – yn wahanol iawn i heddiw, diolch i'r drefn – digon llugoer oedd yr ymateb yn aml wrth sôn am Wlad y Basg. Fe gymerodd flynyddoedd lawer cyn i gyrff cynllunio iaith yng Nghymru, y cyfryngau a'r sefydliadau Cymraeg ymwneud o ddifrif yn y persbectif Ewropeaidd rhyngwladol wrth drafod yr iaith Gymraeg.

Yn y drafodaeth gyhoeddus ar fater statws swyddogol i'r iaith a deddf iaith newydd i'r ganrif newydd, unwaith yn rhagor, roedd yr hyn a ddigwyddai'n rhyngwladol yn bwysig i ymgyrchoedd y Gymdeithas. Gyda nifer o garedigion yr iaith yn dadlau fod 'digon o sgôp' yn dal i fod yn Neddf Iaith 1993, hyd yn oed wedi sefydlu'r Cynulliad fel y'i gelwid, daliodd y Gymdeithas i fynnu statws swyddogol. Unwaith yn rhagor, roedd y dylanwadau Ewropeaidd – ble roedd traddodiadau deddfwriaethol yn dra gwahanol i Gyfraith Lloegr – yn parhau i fod yn rhan o safbwynt y Gymdeithas. Roedd angen statws swyddogol ar iaith Ewropeaidd gyfoes fel y Gymraeg. Parhau i dyfu a wnâi'r prosiect Ewropeaidd, gyda gwledydd dwyrain a chanolbarth Ewrop yn ymuno â'r Undeb Ewropeaidd ac yn llofnodi Siarter Cyngor Ewrop ar gyfer eu ieithoedd lleiafrifol. Cynyddodd y symudiad i gydnabod ieithoedd fel y Gatalaneg a'r Fasgeg ar lefel yr Undeb Ewropeaidd hefyd, ac yn y cyd-

destunau hyn, doedd dim lle i wamalu ar fater deddfu ar gyfer statws swyddogol, diamheuol i'r Gymraeg. Gartref hefyd, roedd angen iddi fod yn gwbl glir fod y Gymraeg yn iaith swyddogol. A oedd bodloni ar etifeddu Deddf Iaith 1993 o Dŷ'r Cyffredin yn wir yn safbwynt rhesymol i'r ddeddfwrfa ddemocrataidd gyntaf yn hanes Cymru? Deddf a basiwyd drwy fwyafrif gwleidyddol nad adlewyrchai bleidlais etholwyr Cymru ac a gafodd ei gwrthwynebu gan rai o ASau Cymreig mwyaf blaenllaw y cyfnod? O'r tu allan hefyd, roedd hi'n anodd deall pam na fyddai'r Cynulliad am gymryd y cyfrifoldeb o ddeddfu yn ei hawl ei hun ar statws ei iaith genedlaethol. Wrth i'r ymgyrch symud yn ei blaen, ac yn sicr wrth edrych yn ôl heddiw, roedd yn gwbl angenrheidiol i hynny ddigwydd.

Mewnforiwyd sloganau'n uniongyrchol o ymgyrchfyd Gwlad y Basg i ymgyrchoedd y Gymdeithas. Daeth 'Ie i'r Gymraeg' yn syth o 'Bai Euskarari' yn sgil dirprwyaeth gan y Gymdeithas yno ac yn dilyn cyfarfodydd â Kontseilua cafwyd ysbrydoliaeth i sefydlu mudiad tebyg i Gymru ac fe grëwyd Mudiadau Dathlu'r Gymraeg, diolch i ymdrechion o dan arweiniad Catrin Dafydd.

Yn fwy diweddar, cyflwynwyd 'Dwi eisiau byw yn Gymraeg' o'r slogan Basgeg 'Euskaraz bizi nahi dut'. Daeth lleisiau o feirniadaeth o fewn rhai elfennau yn y byd Cymraeg fod hyn yn gam yn ôl ac mai byw'n ddwyieithog oedd ein realiti nid cyfyngu drwy fyw'n Gymraeg. Camddeall y cysyniad y tu ôl i'r slogan oedd hynny: er mwyn i iaith fyw mae'n rhaid cael gofodau ble mae'r iaith yn cael ei defnyddio, yn brif iaith, yn iaith gyffredin, yn iaith normal. Dyna yw ystyr 'Dwi eisiau byw yn Gymraeg', nid peidio â mwynhau sgysiau yn Saesneg, peidio â dysgu neu ymwrthod ag ieithoedd eraill.

Wrth i'r Gymdeithas ddathlu ei hanner can mlwyddiant yn 2012, un o'r prif ddigwyddiadau oedd trefnu cynhadledd a fyddai'n nodi pwysigrwydd y cysylltiadau rhyngwladol dros y blynyddoedd ac yn mynegi solidariaeth gydag ymgyrchwyr ar sawl cyfandir. Cafwyd cyfnewid cyson gyda chanolbarth a de

America – gydag Angharad Tomos a Ben Gregory yn arwain sawl ymweliad i Nicaragua ac yn croesawu ymgyrchwyr oddi yno i Gymru hefyd. Bu Iwerddon yn ffynhonnell gyson o ysbrydoliaeth a solidariaeth ar hyd y degawdau i ymgyrchwyr blaenllaw'r Gymdeithas – Gwyn Siôn Ifan, Siân Howys, Steve Eaves, Dylan Morgan a Huw Gwyn ac yn fwy diweddar Bethan Ruth, Mabli Siriol, Colin Nosworthy, Maia Jones, Sel Jones, Dafydd Frayling a Robat Idris. Yn gyson iawn byddai siaradwr rhyngwladol yn rhan o Gyfarfod Cyffredinol y Gymdeithas. Traffig dwy ffordd a gwe o gysylltiadau fu ac yw cyfnewid rhyngwladol y Gymdeithas.

Nid o wlad benodol arall y daeth 'Miliwn o Siaradwyr'. Fodd bynnag, mae ei wreiddiau yn y cysylltu rhyngwladol hwn. Gyda chanlyniadau Cyfrifiad 2011, a'r cwmp bychan ond arwyddocaol, wrth i ganran y siaradwyr Cymraeg lithro o dan yr 20%, roedd hi'n amser deffro a chydabod nad oedd y feddylfryd a'r polisïau a oedd gennym fel gwlad yn ddigonol. Roedd yn rhaid i ni newid gêr a newid tacteg hefyd. Diolch byth am y 'sioc a'r siom', fel yn 1962, i greu trobwynt. Mewn sgwrs â Colin Nosworthy, yn fuan wedi cyhoeddi ffigyrau'r Cyfrifiad, mynegwyd y syniad o'r 'Miliwn Siaradwyr' am y tro cyntaf. Roedd dylanwad y naratifau gwleidyddiaeth iaith, y cyd-destunau Basgeg a Chatalaneg yn glir nad oedd aros yn yr unfan yn ddigon da. Nid cynnal yr hanner miliwn neu'r 20% oedd yr uchelgais briodol i iaith fel y Gymraeg chwaith. Nid dyna oedd wedi bod yn digwydd yn y gwledydd hynny ers y 1980au a'u naratif a'u polisïau blaengar. Roedd rhaid i ninnau hefyd droi ein naratif 'achub' yr iaith yn naratif twf ac ymestyn. Dyna fyddai'r cam synhwyrol nesaf i adeiladu ar yr hyn yr oedd y Gymdeithas eisoes yn ei ddadlau – fod y Gymraeg yn perthyn i bawb. Roedd 'Miliwn o Siaradwyr' yn symboleiddio hyn: yn darged uchelgeisiol, credadwy, cofiadwy, mesuradwy allai gydio yn nychymyg y genedl, i greu'r newid ar y raddfa yr oedd ei angen. Fel tacteg ymgyrchu fe weithiodd. Aeth o fod yn slogan i'r Gymdeithas i fanifesto pleidiau, yn bolisi llywodraeth ac yn

eiriau sy'n cael eu hadleisio mewn strategaethau a sgysiau fel ei gilydd. Fe gydiodd yn y dychymyg. Ond mae'r Gymdeithas bellach un cam ar y blaen eto, 'Miliwn a Mwy' yw hi erbyn hyn.

Byddai'n amhosib ysgrifennu pennod fel hon heb gyfeirio at Brexit. Mae'n her aruthrol nad ydym wedi profi nemor ddim arni eto. Nid yn unig y mae bod y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd – ac yn y ffordd fwyaf eithafol posib – yn niweidio'r economi Gymreig ac yn gwanhau ein cynrychiolaeth ddemocrataidd, ond mae'n cau llwybrau cydweithio rhwng pobl a phobloedd. Er fod y pandemig wedi cuddio llawer o'r effeithiau, a bod nifer ohonom yn dal i fynnu cydweithio a llawer wedi eu sbarduno ymhellach i geisio gwneud hynny, mae'r strwythurau a oedd yno i ni dipyn culach erbyn hyn. Mae rhaglen 'Taith' Llywodraeth Cymru i gymryd lle Erasmus yn galonogol; ond mae'r cyfleoedd a ddaeth drwy'r cronfeydd strwythurol – fel Gronfa Gymdeithasol Ewrop a roddodd gyfle i sefydlu Mercator yn y blynyddoedd cynnar – bellach wedi mynd.

Yn y pen draw, beth bynnag yw trefniadau gwleidyddol y wladwriaeth, mae ein realiti ni'n glir o ran y Gymraeg: mae cysylltiadau rhyngwladol yn gwbl anhepgor i ni yng Nghymru ac mae ein cymdogion yma yn Ewrop yn rhan hanfodol o'r darlun hwnnw. Rydym yn cydysbrydoli ein gilydd: mae ein hymgyrchoedd ni i gyd yn elwa o'r solidariaeth ac mae hynny'n treiddio i'n cymdeithasau. Ie, brwydr ryngwladol yw brwydr yr iaith, ac nid nawr yw'r foment i anghofio hynny.